PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 157 Rhif 30 Gorffennaf 25, 2024 50c.




## FFYDD AELODAU SENEDDOL



Mae llai o aelodau seneddol yn grefyddol nag erioed o'r blaen. Gwelwyd hyn wrth i'r aelodau gymryd y llw, fesul un, yn Nhŷ'r Cyffredin ar ôl yr etholiad. Yn hytrach na chymryd Beibl i dyngu'r llw o ffyddlondeb i'r brenin (dyletswydd gyfreithiol) 'yn ôl y Ddeddf, yn wyneb Duw' fe wnaeth 40% ddewis fersiwn seciwlar o'r geiriad, gan gynnwys y Prif Weinidog newydd Syr Keir Starmer a thua hanner ei gabinet.

### Dal Beibl yn gadarn

Ymhlith y rhai gymrodd 'y llw crefyddol' oedd Ann Davies AS newydd Caerfyrddin – etholaeth newydd sy'n cynnwys pob un o'r 36 o gapeli Cyfundeb Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin, ar wahân i dri. Mae Ann yn ddiacon ac organydd yng nghapel Presbyteraidd Cefnberach, ger Gelli Aur. Dyna braf oedd ei gweld hi'n dal y Beibl Cymraeg i fyny yn gadarn a dwy law wrth dyngu'r llw. Dyna hefyd wnaeth y tri aelod arall o Blaid Cymru. Fe wnaeth 6% o'r Aelodau Seneddol gymryd llwon oedd yn unol â chrefyddau Mwslemaidd, Iddewig, Hindŵaidd a Sikh. Mae hynny'n unol â chanran lleiafrifoedd ethnig y Brydain gyfoes.

### Prif weinidogion di-gred

Mae Syr Keir Starmer yn dilyn ôl troed chwe phrif weinidog nad oeddent yn arddel ffydd a chred – sef David Lloyd George, Ramsay MacDonald, Neville Chamberlain, Winston Churchill, Clement Attlee a James Callaghan. Efallai bydd darllenwyr *Y Tyst* yn synnu gweld enw Lloyd George, pencampwr Anghydffurfiaeth, yno. Er iddo gael ei godi mewn Ysgol Sul a chapel, fe gollodd ei ffydd tra'n ei arddegau. Bu'n flaenllaw yn yr ymgyrch i ddatgysylltu'r eglwys wladol yng Nghymru. O ganlyniad, ers 1920, nid yw Cymru'n gyfreithiol yn wlad Gristnogol, fel y mae Lloegr o hyd.

## DIOLCH ANN AC ALUN



Anrhegwyd Alun Lenny ac Ann Williams yn y cyfarfodydd blynyddol a diolch am eu holl ymroddiad i waith yr Undeb am flynyddoedd maith.

## Adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol yn yr Undeb

*Dyma grynodeb o'r adroddiad a draddodwyd gan y Parchg Dyfrig Rees o lawr y gynhadledd.*

Cafwyd adroddiad cynhwysfawr gan y Parchg Dyfrig Rees yr Ysgrifennydd Cyffredinol gan edrych yn ôl dros y flwyddyn a fu. Diolchodd am groeso hael Cyfundeb Dwyrain Morgannwg i'r Undeb ar gampws Prifysgol De Cymru, Trefforest, Pontypridd eleni ac am y trefniadau a wnaethpwyd gan y pwyllgor trefnu.

Nododd fod yr Annibynwyr wedi bod yn yr ardal hon ers cryn amser, gan grybwyll capel Watford, nepell o safle'r cyfarfodydd blynyddol. Dyma achos a gychwynnwyd yn 1662 – hithau'n eglwys y bu Howell Harris yn drwm ei ddylanwad arni. O ran hanes diweddar, mae'n drist nodi i eglwys Annibynnol Sardis, Pontypridd, yr olaf o eglwysi Cymraeg y dre, ddatgorffori llynedd. Cynhaliwyd oedfaon yno'n griw bychan hyd y diwedd. Erbyn hyn mae'r aelodau wedi ymgartrefu'n dda mewn eglwysi eraill.

### Staff a gwirfoddolwyr

Talodd wrogaeth i'w gydweithwyr yn Nhŷ John Penri a diolch iddynt am eu gwaith a'u cydweithrediad dros y flwyddyn. Ymunodd aelod newydd o staff, sef Mrs Meinir Williams, gyda'r criw yn Nhŷ John Penri y llynedd ac eleni, ymddeolodd Miss Ann Williams wedi treulio dros 25 blynedd yn Ysgrifennydd Gweinyddol yr Undeb.

Nododd fod yr Undeb yn dibynnu ar gefnogaeth hanfodol gwirfoddolwyr.

*parhad ar dudalen 2*

## Adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol – *parhad*

Roedd am dynnu sylw'n arbennig at gyfraniad enfawr Mr Dafydd Roberts, Trefor. Bu Dafydd yn gadeirydd y Cyngor am dros ddau dymor, gan gynnwys cyfnod y pandemig. Y mae Dafydd yn parhau i fod yn un o garedigion yr Annibynwyr, gyda'i gyngor doeth a'i ffraethineb hawdd. Diolchodd Dyfrig iddo a dymuno'n dda iddo ef a Siân. Penodwyd olynydd i Dafydd fel cadeirydd sef, Mrs Annalyn Davies, Gibeon, Bancyfelin a Bethlehem newydd, San Clêr. Dymunwyd yn dda iddi ac i swyddogion ac aelodau Cyngor fydd yn dechrau tymor newydd o wasanaeth wedi'r Undeb. Diolchwyd i Geraint Rees am ei arweiniad a'i wasanaeth fel trysorydd a hefyd i'r Llywydd am ei ofal a'i gefnogaeth.

### Ffynhonnau Byw

Soniodd Dyfrig am apêl Cymorth Cristnogol yr Undeb, sef Ffynhonnau Byw, y mae wedi croesi trothwy £25,000, ac anogodd bawb i barhau i gasglu arian er mwyn cynorthwyo pobl Colombia a'u grymuso. Diolchodd i bawb fu wrthi'n trefnu, yn cynnal digwyddiadau, yn casglu ac yn gweithredu yn enw'r apêl. Bydd yr apêl ar agor tan ddiwedd y flwyddyn.

Y mae adnoddau defosiynol amrywiol ar gael ar y wefan i bawb eu defnyddio fel y mynnont, pethau fel podlediad Y Cwmni Bach, Eglwys y Mis, gwasanaethau, defosiynau a gweddïau sydd ar wefan annibynwyr.cymru.

### Llongyfarchiadau

Llongyfarchwyd y Dr Cynan Llwyd ar gael ei benodi fel prif weithredwr Cytûn gan nodi mai Cynan yw'r ail Annibynnwr – Noel Davies oedd y cyntaf – i ddal y swydd hon. Y mae'n galondid, meddai, gweld person o'r genhedlaeth iau yn cydio yn y gwaith, ac un sy'n meddu argyhoeddiad Cristnogol dwfn a brwdfrydedd egnïol i garu a gwasanaethu Iesu yn ein dydd. Nododd hefyd fod y Parchg Jill-Hailey Harries wedi ei hurddo'n Llywydd Cyngor Eglwysi rhyddion Cymru am y tair blynedd nesaf a'r Parchg Dylan Rhys wedi ei benodi yn aelod o fwrdd CWM ac yn gadeirydd CWM UK.

### Cydweithio

Crybwyllodd Dyfrig y berthynas newydd â Choleg y Bedyddwyr, Caerdydd ac ag Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru gyda golwg ar y gwaith hyfforddi. Diolchodd hefyd i Carwyn Siddall, y Cydlynydd Hyrwyddo Gweinidogaethau, sydd wedi cyflawni cymaint o waith mewn cyfnod cymharol



fyr. Ymhyfrydodd yng ngwaith y Cyngor Ysgolion Sul, Panel Diogelu, Cymorth Cristnogol, CWM, Cymdeithas Annibynwyr y Byd, Cyngor Eglwysi'r Byd, Cymundeb Eglwysi Diwygiedig y Byd.

### Materion eglwysi a chapeli

Nododd Dyfrig mai'r math o alwadau ddaw i Dŷ John Penri'r dyddiau hyn yw materion sy'n ymwneud ag ymddiriedolwyr capeli, eiddo eglwysig, adeiladau, mynwentydd, a chyfrifon, eu cadwraeth, eu gwerthiant a'u diogelwch. Y mae'r Undeb wedi ceisio ymateb yn gadarnhaol i'r holl alwadau a chynnig cymorth ble oedd hynny'n briodol. Yn wir roedd penderfyniad am ddod i lawr y gynhadledd yn gofyn am ymateb penodol ar ran yr Undeb i'r sefyllfa. Yr ydym mewn cyfnod o drai a cholli o ran niferoedd eglwysi meddai, ac er nad peth newydd yw datgorffori eglwysi a gwerthiant capeli, dros y 25 mlynedd diwethaf collodd yr Annibynwyr, 350 o'u heglwysi. Ond deliwyd a sefyllfaoedd anodd a chymhleth yn effeithiol a boddhaol. Pwysleisiodd Dyfrig mai dim ond un diffyg y mae'n rhaid i ymddiriedolwyr ochel rhagddo sef esgeulustod. Gall pob eglwys fod â chorff o ymddiriedolwyr cwbl gyfrifol, abl a llwyr alluog i gyflawni eu gwaith. Tynnodd Dyfrig sylw at grantiau'r Drysorfa Gynorthwyol gan nodi bod amryw o eglwysi a gofalaethau wedi gallu manteisio ar y grantiau sydd ar gael ar gyfer Arloesi a Buddsoddi yn ogystal â chynnal gweinidog. Y mae ymddiriedolwyr y Drysorfa'n frwd iawn bod cyfalaf yn cael ei ryddhau ac mae'r gwaith o geisio hyrwyddo a hwyluso dymuniad hwn yn un sy'n datblygu'n gyson.

### CWM

Adroddodd Dyfrig ar Gymanfa CWM Durban, De Affrig sef *Codi i fywyd: gyda'n gilydd mewn trawsnewidiad*. Rhoddodd adroddiad byw a llawn o'r gynhadledd, gan sôn am nifer o'r bobl o bob cyfandir a greodd argraff arno oedd yno'n tystio i gariad Duw, yn rhannu ac yn trafod yr hyn y medrwn ni fel Cristnogion wneud ar y ddaear hon. Yr ydym oll yn rhan o wead creadigaeth Dduw.

## PEN-BLWYDD HAPUS YN 80



*Pen-blwydd 80 hapus i ddau aelod Saron, Creunant: Jacqui ac Elaine. Maent yn aelodau ffyddlon yn yr eglwys a dymunwn fendith Crist ar eu bywydau.*

Yr Adran Gydenwadol

GORFFENNAF 25 2024 RHIF 178

# Undeb Croes-goch 2024: Adeiladaf fy Eglwys



Arweinydd, Llywydd ac organyddes y Gymanfa Ganu



Mwynhau yn "Noson y Seren"

Cynhelir Cyfarfodydd Blynyddol Undeb Bedyddwyr Cymru mewn lleoliadau gwahanol bob blwyddyn ac eleni, gyda'r Parchg Geraint Morse yn cael ei urddo fel Llywydd yr Undeb, fe'u cynhaliwyd yng Nghroes-goch, sir Benfro, ar wahoddiad eglwysi'r ofalaeth. 'Adeiladaf fy Eglwys' oedd thema'r gynhadledd a chaed ymdrech arbennig i ymestyn allan i'r gymuned wrth i'r cyhoedd gael eu gwahodd i'r oedfaon cyhoeddus a'r gweithgareddau ymylol.

**Oedfa Gymun a Chymanfa Ganu**: Dechreuodd y dathliadau fore Sul, 23 Mehefin, pan ddaeth cynulleidfa dda o eglwysi sir Benfro a thu hwnt ynghyd i Oedfa Gymun Undebol yng nghapel Croes-goch dan ofal y Parchg Geraint Morse. Yn ei bregeth, cyfeiriodd Geraint at 'Edrychiadau'r Cymun', sef edrych yn ôl; edrych i mewn; edrych i fyny at Iesu; edrych o gwmpas wrth feddwl am eraill; ac edrych ymlaen i'r dyfodol mewn ffydd.

Yn yr hwyr cafwyd canu ysbrydoledig pedwar llais mewn Cymanfa Ganu o dan arweiniad Ms Gwawr Owen, merch-yng-nghyfraith cyn-weinidog Harmoni, Pen-caer, y diweddar Barchg John Roberts. Organyddes Harmoni, Mrs Valerie Llewhelin, oedd yn gwasanaethu wrth yr offeryn a chafwyd eitem gerddorol gan fechgyn yr ardal. Dewiswyd emynau oedd â chysylltiadau â sir Benfro neu â'r Bedyddwyr, ac fe gafodd yr oedfa ei recordio ar gyfer *Caniadaeth y Cysegr*. Gwnaed casgliad tuag at Apêl UBC/CC Talentau Gobaith Zimbabwe.

**Dwy daith a barbeciw**: Bore dydd Llun, 24 Mehefin, cynhaliwyd taith gerdded o gwmpas arfordir sir Benfro, dan arweiniad Megan Pratt. Ac yn y prynhawn bu taith arall o gwmpas yr Eglwys Gadeiriol o dan arweiniad Cyn-esgob Tyddewi, y Gwir Barchedig Wyn Evans. Daeth tyrfa dda ynghyd ar gyfer 'Noson o dan y Seren', sef barbeciw ym Mragdy Fferm Harglodd Uchaf, Tyddewi. Y grŵp lleol Gelert fu'n diddanu, a denwyd llawer o bobl na fyddai fel arfer yn mynychu capel neu eglwys i'r digwyddiad. Yn ystod y noson cyflwynwyd tystiolaeth am yr Arglwydd Iesu gan Hannah Smethurst, Jasper Natarajan a Christian Tucker-Williams.

**Yr Eisteddiad Cyntaf**: Ysgrifennydd Eglwys Croes-goch, Mr Alun Thomas, estynnodd groeso i gynrychiolwyr yr eglwysi i Eisteddiad Cyntaf y Gynhadledd fore Mawrth, 25 Mehefin. Agorwyd y cyfarfod mewn defosiwn gan Arolygwr Cymanfa Penfro, y Parchg Eirian Wyn Lewis, a chadeiriwyd y cyfarfod busnes gan Lywydd yr Undeb, Mr Bill Davies. Cyfeiriwyd at waith pwyllgorau, byrddau, cynghorau a chorfforaeth yr Undeb, a phob un adroddiad yn dyst fod Duw yn parhau i adeiladu ei eglwys.

Cymeradwywyd cais Cymanfa Dinbych, Fflint a Meirion i wrthwynebu cynlluniau i godi gorsaf radar ddadleuol ar gyfer y gofod yn sir Benfro. Bwriad y Weinyddiaeth Amddiffyn oedd codi 27 o ddysglau radar ar safle presennol Baracs Cawdor ym Mreudeth ar Benrhyn Dewi fel rhan o gynllun DARC (Deep Space Advanced Radar Capability). Un o brif ddibenion y cynllun fyddai dod o hyd i loerennau gwledydd eraill yn y gofod er mwyn eu dinistrio. Afraid dweud y gallai hynny arwain at nifer o ganlyniadau peryglus. Yn ystod yr Eisteddiad cafwyd cyfle hefyd i gyfarfod â Chyfreithiwr Mygedol newydd yr Undeb, sef yr Athro Iwan Davies, ac i dderbyn diweddariad am Apêl Talentau Gobaith yr Undeb/Cymorth Cristnogol. Yn ogystal, cyflwynwyd y darpar Is-lywydd, sef y Parchg Rob Nicholls, a estynnodd wahoddiad i bawb i Gyfarfodydd Blynyddol yr Undeb 2025 yn Eglwys Gymraeg Canol Llundain.

**Cyflwyno cyfrol a chylchgrawn**: Dymuniad a gweledigaeth y Parchg Geraint Morse oedd cyfieithu'r gyfrol *How to Pray* gan Pete Greig i'r Gymraeg, ac o ganlyniad i haelioni cyfaill iddo o'r enw Mac Ransom, llwyddwyd i sicrhau hynny. Cyflwynwyd copïau i Geraint a Mac gan y Parchg Aled Davies, Cyhoeddiadau'r Gair. Braint hefyd ar ran pwyllgor *Cristion* oedd cyflwyno tri golygydd newydd y cylchgrawn, sef y Parchedigion Sian Elin Thomas, Heulwen Evans a'r Bnr Eurfyl Lewis. Cyflwynwyd rhifyn cyntaf *Cristion* ar ei newydd wedd i'r tri golygydd gan y Parchg Judith Morris, Ysgrifennydd Cyffredinol yr Undeb.

**Yr Ail Eisteddiad: Adroddiad 2041**: Yn 2021 paratowyd dogfen gan yr Undeb, sef Adroddiad 2041, oedd yn creu darlun ystadegol o sefyllfa debygol eglwysi'r Undeb ymhen rhyw ugain mlynedd. Yn ystod y flwyddyn cynhaliwyd cyfarfodydd arbennig gyda phob Cymanfa a bu hynny'n destun trafod yng nghyfarfod y Cyngor. Rhoddodd Dr Christian Williams, y Parchg Simeon Baker a'r Athro Iwan Davies ddiweddariad ar y camau nesaf, sef y bwriad i greu Sefydliadau Corfforaethol Elusennol Rhanbarthol er mwyn sicrhau cyrff a fyddai'n addas ar gyfer cefnogi gwaith cenhadol y dyfodol ac i ddiogelu'r Cymanfaoedd.

**Darlith y Gymdeithas Heddwch**: 'Apêl Heddwch Merched Cymru: Hanes Ddoe, Heriau Heddiw' oedd testun cyflwyniad Siân Wyn Siencyn a Siân Howys. Cyn cyflwyno'r siaradwyr gwadd offrymodd y Parchg Denzil John, Cadeirydd y Gymdeithas Heddwch, weddi dros heddwch yn ein byd. Yn ystod y ddarlith soniwyd am yr Ymgyrch Heddwch a sefydlwyd gan ferched Cymru yn 1923 pan gasglwyd yn agos i bedwar can mil o lofnodion a'u gyrru mewn cist i America er mwyn apelio ar ferched America i weithio dros fyd heb ryfel. Roedd y gist bellach wedi dychwelyd i Gymru a'r cynnwys yn cael ei ddigideiddio.

(parhad ar y dudalen nesaf)

*Undeb Croes-goch 2024: Adeiladaf fy Eglwys*
*(parhad o dudalen 1)*




Golygyddion newydd *Cristion* gyda Judith Morris ac Aled Davies

**Croesawu Cynrychiolwyr yr Enwadau**: Hyfrydwch oedd gwahodd cynrychiolwyr yr enwadau eraill i'r pryd hwyrol a gynhaliwyd yng Nghrug Glas. Estynnwyd croeso gan y Llywydd i'r Parchg Richard Gillon, yr Eglwys Fethodistaidd; y Parchg Jeff Williams, Llywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg; y Parchg Jill-Hailey Harries, Llywydd Cyngor yr Eglwysi Rhyddion; a'r Barchg Ddr Angharad James ar ran yr Eglwys yng Nghymru. Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth y Parchg Aneurin Owen, Llywydd Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Y Parchg Jill-Hayley Harries fu'n enau drostynt gan ddiolch am y croeso.

**Oedfa'r Llywydd**: Daeth cynulleidfa dda ynghyd i Groes-goch ar gyfer Oedfa'r Llywydd. Y Llywydd cyfredol, Mr Bill Davies, oedd yn gyfrifol am groesawu pawb i'r oedfa a chymerwyd at y rhannau arweiniol gan y Parchg Isaias Grandis, gweinidog Adulam, Felinfoel, Seion Llanelli a Salem Llangennech. Y Parchg Judith Morris, yr Ysgrifennydd Cyffredinol, oedd yn gyfrifol am drosglwyddo'r llywyddiaeth i'r Parchg Geraint Morse ac offrymwyd yr Urdd Weddi gan y Parchg Simeon Baker, Cyfarwyddwr Cenhadaeth. Yn ei anerchiad fe'n heriwyd gan y Llywydd newydd, y Parchg Geraint Morse, i ystyried a oedd yna ddyfodol i Eglwys Iesu Grist yn yr oes seciwlar, ôl-Gristnogol hon. Drwy nifer o ddarluniau trawiadol, cafwyd sicrwydd ganddo fod Eglwys Iesu Grist yn gwbl ddiogel am fod nerth yr Ysbryd Glân o'i phlaid ac o'i chwmpas fel mur o dân; yr oedd Iesu'n caru ei bobl a'i eglwys fel y carai priodfab ei briodasferch a byddai'r etifeddiaeth yn parhau'n drysor gwerthfawr trwy achubiaeth a gras Duw. Gwnaed offrwm tuag at Apêl Zimbabwe yn ystod yr oedfa a chyhoeddwyd y fendith gan y Parchg Rhosier Morgan.

**Defosiwn Agoriadol Dydd Mercher**: Atgoffwyd pawb yn y defosiwn gan y Parchg Ddr Rhys Llwyd am y graig yr adeiladwyd yr eglwys arni a'r modd y cafodd Pedr ail gyfle gan Iesu o flaen tân golosg ar y traeth i ailgysegru ei alwad deirgwaith yn dilyn yr atgyfodiad. Dengys hyn nad oes rhaid i gamgymeriadau ddoe ein diffinio ac mai trwy fod yn gyfeillion agos i'r Iesu y gellid adeiladu ei eglwys yn yr oes hon.

**Y Sesiwn Genhadol**: Tystiolaeth bellach o Dduw'n adeiladu ei eglwys oedd yr hyn a fynegwyd gan y Parchg Simeon Baker, Cyfarwyddwr Cenhadaeth, a Sioned Graves, Swyddog Cenhadaeth, ar sut y gellir manteisio ar gyfleoedd i genhadu wrth daflu'r rhwyd i ochr arall y cwch. Newyddion i ymhyfrydu ynddo oedd clywed fod dau a fu'n aelodau o'r Tîm i Gymru 2018, cynllun a roddai gyfle i ieuenctid ddirnad galwad Duw ar eu bywydau, ar fin cael eu hordeinio i'r weinidogaeth. Bu'r sgwrs gyda Hannah Smethurst, un o'r ddau ymgeisydd, yn fodd i godi calon. O gofio'r pwysigrwydd o gyrraedd pobl yn eu cymunedau, braf oedd clywed gan y Parchg Geraint Morse am y cynllun i blannu eglwys yn nalgylch Ysgol Caer Elen, Hwlffordd. Hyfrydwch hefyd oedd clywed am lwyddiant y penwythnos 'Esgyn' ar gyfer ieuenctid a dangoswyd ffilm fer a oedd yn rhoi blas o'r gweithgarwch. Nododd y Parchg Sian Elin Thomas, un o arweinwyr y penwythnos bod 33 o bobl ifainc wedi mynychu'r digwyddiad gyda 10 ohonynt yn dod o sir Benfro. Daeth y sesiwn ysbrydoledig i ben gyda chyfweliad â'r Parchg Andrew Settatree, un a fagwyd yn sir Benfro, ond a oedd bellach wedi dechrau gweinidogaethu yn Eglwys Hope/Gobaith Llanelli.



Hannah Smethurst yn cael ei chyfweld gan Sioned Graves

**Cyflwyniad Mudiad y Chwiorydd:** Roedd brwdfrydedd ac ymroddiad y Chwiorydd yn brawf o'u hymdrechion i adeiladu Eglwys Dduw. Adroddodd y Llywydd, y Parchg Sian Elin Thomas, am ei phrofiadau fel caplan Glyn Nest gyda Ruth Davies ac Eleri Lloyd Jones yn sôn am eu hymweliad bendithiol â Chynhadledd Chwiorydd Bedyddwyr Ewrop yn Riga, Latfia, ym mis Hydref. Estynnodd y darpar Lywydd, y Parchg Deb Stammers, wahoddiad cynnes i bawb i Gyfarfodydd Blynyddol y Mudiad yn Llannerch-y-medd ar 11 Medi eleni.

**Oedfa'r Weinidogaeth:** Bu'r oedfa hon nid yn unig yn gyfle i estyn croeso i weinidogion newydd ond hefyd i gofio'n annwyl am y gweinidogion a fu farw yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Bu'n gyfle hefyd i glywed neges arbennig a chofiadwy gan y pregethwr gwadd, y Parchg John Treharne, Tabernacl, Llwynhendy. Cododd ei destun o I Pedr, pennod 2, a ddarllenwyd gan y Parchg Aled Maskell ar ddechrau'r oedfa, darn a oedd yn cyfeirio at y maen a wrthodwyd gan yr adeiladwyr ond a ddaeth yn brif gonglfaen i'r bobl. Atgoffwyd pawb ar ddiwedd Undeb gofiadwy mai Duw ei hun, trwy farwolaeth ei fab Iesu Grist, oedd yn adeiladu ei Eglwys, a ninnau'n feini bywiol iddo. Byddai'r eglwys yn llwyddo pan fyddem wedi cysegru ein hunain yn ebyrth byw iddo a chariad Crist yn ein cymell ymlaen wrth wisgo'i gyfiawnder a chyflwyno gwerthoedd ardderchog Duw i eraill.

**Arddangosfa Gwaith Llaw**: Yn yr Hen Ysgol, sef Festri Eglwys Croes-goch, trefnwyd arddangosfa arbennig o waith llaw cywrain chwiorydd yr eglwys, o dan arweiniad Mrs Tina Morse. Fe'i gosodwyd ar y muriau a phob darn o'r gwaith yn ddehongliad unigryw o thema'r gynhadledd, 'Adeiladaf fy Eglwys'. Roedd yr arddangosfa yn wledd i'r llygaid.


Daeth y gynhadledd i ben o gwmpas y byrddau yng ngwesty Crug Glas gyda chinio blasus. Bu eglwysi'r ofalaeth yn hael eu croeso trwy gydol y cyfarfodydd a'r cyfan yn hynod fendithiol. Bu'n Undeb i'w chofio.


*Bonni Davies*


BBC radio cymru


***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 28 Gorffennaf, am 7:30yb a 16:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Sally Harper

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 28 Gorffennaf, am 12yp**
Oedfa dan ofal Anna Huws, y Bala


LLYFRAU NEWYDD
I BLANT - 2024
LLYFR SŴN ANIFEILIAID Y BEIBL
Llyfr Sticeri Storïau Beiblaidd
200
Llyfr Llechen Beiblaidd
LLYFR LLIWIO BEIBL BACH STORI DUW
HEFYD AR GAEL YN FUAN:
PORTH-I-R 5000
Carolau Nadolig
Cyhoeddiadau'r Gair


LLYFRAU NEWYDD
HAF '24
Cyhoeddiadau'r Gair
BYW'R WEDDI
Trystan Owain Hughes
Gair Duw ar Lafar Gwlad
Dewi Arwel Hughes
GWEDDÏO'R SALMAU
Euros Jones Evans
SUT I WEDDÏO
PETE GREIG
AMBELL GAM TRWY'R FLWYDDYN
Noel A Davies
GAIR YN EI BRYD
NOEL A. DAVIES
COFIWCH HEFYD AM:
CODI'R LLEN
GOBAITH
GLYN WISE


LANSIAD LLYFR
DYDD LLUN 5 AWST 1.30
ST CATHERINE'S PONTYPRIDD
EISTEDDFOD GENEDLAETHOL
Ymunwch gyda ni i lansio'r llyfr gwerthfawr hwn gan Trystan Owain Hughes. Dewch i glywed gair gan yr awdur dros banad o de a chyfle i brynu'r llyfr.
BYW'R WEDDI
Myfyrdodau ar Weddi'r Arglwydd a'u perthnasedd i ni heddiw
Trystan Owain Hughes
Addasiad Cymraeg: Gwilym Wyn Roberts
Cyhoeddiadau'r Gair


GWAHODDIAD I
LANSIAD LLYFR
EISTEDDFOD GENEDLAETHOL
NOS FERCHER 7.00
TEMPLE BAPTIST,
PONTYPRIDD
Ymunwch gyda ni yng nghwmni teulu a chyfeillion Dewi i lansio'r gyfrol werthfawr hon a chofio a diolch eto am fywyd un o gymwynaswyr bro'r Eisteddfod.
Gair Duw ar Lafar Gwlad
Ymadroddion enwog o'r Beibl
Y BEIBL CYSSEGR-LAN, SEF YR HEN DESTAMENT, AR NEWYDD.
Dewi Arwel Hughes
Golygwyd gan Christine James ac E. Wyn James
Cyhoeddiadau'r Gair

# NY AKO'N GALW ACW

Fe gyrhaeddodd criw bywiog Ny Ako, y grŵp perfformio o Fadagascar – fu ar daith drwy Gymru a Lloegr yn ddiweddar – Neuadd-lwyd ger Aberaeron, Ceredigion i ymweld ag eglwys rhai o'r cenhadon cyntaf aeth i Fadagascar.

Dros ddau gan mlynedd yn ôl, aeth David Jones a Thomas Bevan o Neuadd-lwyd draw i'r Ynys Fawr â chariad Crist yn llosgi yn eu calonnau. Y mae'r dystiolaeth yn dal i fod yn fyw yno o hyd. Roedd yn bwysig felly i griw Ny Ako gael talu gwrogaeth i'r cof am y cenhadon cyntaf drwy ymweld â chapel Neuadd-lwyd gan eu bod ar ymweliad i Gymru.

Ar y wal yn y capel mae cofeb o farmor sy'n cofnodi'r dathliadau fu yn Aberaeron adeg Cyfarfodydd Blynyddol yr Undeb yn 2018. Mewnforiwyd y gofeb o Fadagascar ar gyfer y dathliadau. Anfonwyd cofeb gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg a grëwyd o lechen allan i Fadagascar ar gyfer eu dathliadau hwy, mae'r geiriau ar y llechen yn cofnodi'r berthynas hirhoedlog fu rhwng Cymru a Madagascar.

Ystyr Ny Ako yw 'adlais' yn y Falagaseg, mae'r criw yn dod i Gymru bob yn ail flwyddyn ac yn teithio drwy'r haf i bob cwr yn rhannu'r efengyl ac yn diddanu.




*Criw Ny Ako yn Neuadd-lwyd gyda'r gofeb o farmor sy'n nodi'r ddau gan mlwyddiant*

# YN YR ARDD

Un ffordd sydd gen i er mwyn cadw fy meddwl yn weithredol [yn fy henaint] yw trwy ysgrifennu erthyglau fel hyn, y rhan fwyaf ohonynt, i gystadlu yn noson Hwyl yr Hogwr ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Yr wythnos hon, derbyniais y darlun uchaf oddi wrth ffrind i mi o Sir Fôn.

Yr arlunydd yw Mr Gwynfor Griffiths, sydd wedi ymddeol ag yn byw yn Rhosgoch ger Amlwch, Sir Fôn.

Ers ei ymddeoliad, mae Gwynfor, fy ffrind , yn cyflawni prosiect a osododd iddo'i hun, o wneud darlun o eglwysi a chapeli Môn, a'r cyffiniau. Mae wedi trafaelu milltiroedd hwnt ac yma. Mae'n mynd o gwmpas hefyd i arlunio cartrefi pobol, neu bortreadau i'w perchnogion. Does dim yn ormod ganddo. Ac i mi, mae ei waith yn arbennig. Ychydig o wythnosau yn ôl, cafodd alwad i ymddangos ar Raglen *Heno* S4C, efallai i rai ei weld bryd hynny.

Un nodwedd o'i waith yw gwneud llun, sydd hefyd wedi ei lofnodi ganddo, ohono'i hun rywle yn y darlun. Yma, gwelir ef ar ochr y llun yn eistedd yn ei gadair yn yr ardd i edrych ar ei ddarlun.

Da iawn a diolch Gwynfor.



# BEDYDD YN RHYD-Y-MAIN





Prynhawn Sul, 23 Mehefin, gyda chynulleidfa luosog yn dyst, cynhaliwyd gwasanaeth bedydd Gwenlli Arwel, merch Caryl a Gerwyn Pugh, Rhoslefain, Tywyn. Cafodd Caryl ei magu yn eglwys Rhyd-y-main a braf oedd cael croesawu'r teulu ifanc yn ôl i'n plith. Gweinyddwyd y bedydd gan y Parchg Huw Dylan, Llangwm, a chafwyd neges amserol ac oedfa fendithiol yn ei gwmni. Mawr yw ein diolch iddo am ddod atom.

# Barn Annibynnol

## CODI 'NÔL LAN'!

Mae'n siŵr y byddai'r rhan fwyaf os nad y cyfan ohonom yn cytuno fod safonau mewn bywyd cyhoeddus wedi llithro. Daeth hynny'n amlwg iawn yn ddiweddar, gwaetha'r modd. Mae'n fater difrifol o ran iechyd ein democratiaeth gan mor isel yw'n ffydd ac ymddiriedaeth mewn gwleidyddiaeth a chymaint o wasanaethau cyhoeddus y dyddiau hyn. Lluniwyd Egwyddorion Nolan ym mis Mai 1995 i ddisgrifio'r ymddygiad y dylid ei ddisgwyl gan bawb sy'n dal swydd gyhoeddus yn y Deyrnas Unedig. Cawsant eu cymeradwyo gan lywodraeth San Steffan. Dyma'r egwyddorion a ddylai lywio ymddygiad pobl ble bynnag maent yn gweithio – yn y sector addysg neu iechyd, mewn gwasanaethau cymdeithasol a gofal, yn y llysoedd neu'r gwasanaeth prawf, gyda'r heddlu, y gwasanaeth sifil neu lywodraeth.



### Saith egwyddor Nolan

Mae'n werth ailadrodd penawdau'r saith egwyddor. Go brin y byddai unrhyw un ohonom yn anghytuno â hwy: Anhunanoldeb, Uniondeb, Gwrthrychedd, Atebolrwydd, Bod yn Agored, Gonestrwydd, Arweiniad. Gellid ymhelaethu ar bob un ohonynt ond mae'r rhestr yn ddigon i'n hatgoffa fod gwerthoedd ac egwyddorion o fewn sefydliadau'n cyfrif.

Roedd egwyddorion Nolan yn torri tir newydd pan gawsant eu cyflwyno oherwydd eu bod yn canolbwyntio ar ymddygiad a diwylliant yn hytrach na phroses. Yn gyffredinol, maent wedi sefyll prawf amser yn dda ac yn parhau mor berthnasol heddiw ag erioed. Rhaid cyfaddef, fodd bynnag, fod rhai sefydliadau wedi'u coleddu a'u cymhwyso'n llawer gwell nag eraill.

### Gweithredu er lles pawb

Cymerwch yr egwyddor gyntaf, er enghraifft: Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus wneud penderfyniadau er budd y cyhoedd yn unig. Ni ddylent wneud penderfyniadau er mwyn iddynt hwy, eu teulu neu eu ffrindiau, elwa'n ariannol neu'n faterol. Gallwch chithau, fel minnau dw i'n siŵr feddwl am sawl enghraifft o bobl neu sefydliadau sydd wedi esgeuluso'r egwyddor hon. Yn wir, wrth fynd drwy'r datganiadau sydd ynghlwm wrth bob egwyddor, mae sawl amheuaeth yn mynnu dod i feddwl dyn.

Gwleidyddiaeth fu dan y lach yn ddiweddar. Cafwyd yr argraff nad yw rhai gwleidyddion o ddifrif wrth drafod ein bywyd a'n bywoliaeth, gan ystyried y cyfan fel rhyw fath o gêm. Efallai'n wir mai lleiafrif yw'r gwleidyddion sydd ddim yn cydymffurfio ond mae'r rhai sy'n dwyn y penawdau breision yn ddigon i ddod ag enw drwg i'w proffesiwn. Does fawr o obaith cuddio'u beiau 'rhag y werin' ychwaith yn nyddiau'r cyfryngau cymdeithasol!

### Didwyll?

Meddyliwch hefyd am yr holl ymddiheuro sy'n digwydd bron yn ddyddiol! Ry'n ni'n clywed am bobl a sefydliadau'n ymddiheuro am rywbeth neu'i gilydd byth a hefyd. Daw'r byd gwleidyddol a sgandal y Swyddfa Bost yn union i'r cof, er enghraifft. Mae tuedd i'r holl ymddiheuriadau droi'n ystrydebau ar adegau. Pa mor ddidwyll a pha mor dderbyniol ydyn nhw, tybed?

### Safonau moesegol

Wrth edrych ar yr hyn a olygir o ran 'safonau mewn bywyd cyhoeddus', dywed un arbenigwr ei bod yn 'hanfodol edrych ar y peth o safbwynt safonau moesegol, yn ogystal â safonau cymhwysedd o ran perfformio dyletswyddau. Mae'r ddau yn rhan o safonau mewn bywyd cyhoeddus.'

### Byd ôl-Nolan

Mae yna leisiau heddiw sy'n poeni ein bod yn byw mewn byd ôl-Nolan. Y canfyddiad yw bod gormod mewn bywyd cyhoeddus, yn cynnwys rhai arweinwyr gwleidyddol, yn dewis diystyru normau moeseg a gweddustra sydd wedi llywodraethu bywyd cyhoeddus ers bron i dri deg o flynyddoedd ac nad oes dim byd yn digwydd pan gyfyd enghreifftiau o dorri safonau moeseg.

Mae egwyddorion Nolan yn ymwneud â'r bywyd cyhoeddus yn benodol. Tybed a yw'r dirywiad yn y bywyd hwnnw yn rhannol oherwydd bod yr egwyddorion hyn wedi mynd yn angof i gynifer? Mae'r dybiaeth gymaint fel y bo galw am ailymweld â hwy ac i ystyried pa mor dda maen nhw'n llywio'n diwylliant a'n harferion bellach. Ond tybed hefyd a oes enghraifft yma o rywbeth llawer dyfnach na hyn, sef y dirywiad mewn Cristnogaeth ac effaith andwyol hynny ar gymdeithas yn gyffredinol?

### Cymdeithas amlgrefydd

Ry'n ni'n byw mewn cymdeithas amlgrefyddol ac amlddiwylliannol ac, i raddau helaeth iawn, anghristnogol. Llai na hanner ohonom yn y Deyrnas Unedig sy'n disgrifio'n hunain fel Cristnogion erbyn hyn. Dyw'r foeseg Gristnogol ddim yn greiddiol i wead ein cymdeithas bellach, gwaetha'r modd. Dirnad yr atebion i gwestiynau moesol mewn ffyrdd gwahanol wna llawer y dyddiau hyn. Ry'n ni'n parchu hynny, wrth reswm, ond pery'n golled enfawr i gymdeithas a'r bywyd cyhoeddus.

### Gorgyffwrdd

Tra bo peth gorgyffwrdd rhwng y foeseg Gristnogol ac egwyddorion Nolan, mae yna wahaniaeth creiddiol rhyngddynt hefyd. Mae'r foeseg Gristnogol yn ymestyn y tu hwnt i swyddi cyhoeddus i fywyd personol a thwf ysbrydol ac yn ystyriol o fywyd yn ei holl gyflawnder. Mae'n cynnig sylfaen foesol, yn ein rhoi ar ben ffordd wrth wneud penderfyniadau moesegol, yn llywio normau diwylliannol ac yn dylanwadu ar unigolion ar lefel bersonol. Mae'n hyrwyddo cariad a chymod, cyfiawnder a thrugaredd ac yn cyfrannu at gymdeithas fwy cytûn a llewyrchus.

Er mai lleiafrif ydyn ni, Gristnogion, bellach, mae digon ohonon ni yma o hyd i ddyfalbarhau, i fyw a hyrwyddo gwerthoedd cyflawn y foeseg Gristnogol, nid yn unig er ein mwyn ein hunain ond hefyd er mwyn creu gwell byd i bawb gan gynnwys y bywyd cyhoeddus.

**R. Alun Charles**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

Cytûn

Cofiwch alw i'n gweld yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontypridd

Eisteddfod Genedlaethol – Pontypridd, Awst 3-10 2024

Eleni bydd gennym bresenoldeb mewn dau leoliad – stondin ar y maes ac Eglwys St Catherine's yn y dref.

Bydd gennym stondin fechan ar y maes (Uned 316-7) ond bydd ein gwasanaethau, arddangosfeydd, gwaith plant, sgyrsiau a lluniaeth yn cael eu cynnal yn Eglwys St Catherine's sydd ond 5 munud o'r maes.

Byddwn yn yr Eglwys bob dydd rhwng 11.30 - 5.30

Croeso cynnes i bawb

Galwch i'n gweld yn Eglwys St Catherine's



*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Cyfarfodydd Blynyddol yr Undeb

**Cafwyd cyfarfodydd blynyddol llwyddiannus yn Nhrefforest, Pontypridd eleni. Dyma flas o'r hyn fu'n digwydd yno.**


























*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*